# CYNGOR CYMUNED BETHESDA
# BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*"Gwerth cymuned yw'n credo*
*A'n braint yw gwarchod ein bro"*

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Donna Watts**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorBethesda@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd yng Ngorffwysfan
**Nos Iau 31 Mai 2018**

**PRESENNOL:**
**Ward Ogwen**
Y Cynghorydd Walter Williams
Y Cynghorydd Mary Jones
Y Cynghorydd Griff Morris
Y Cynghorydd Gwilym Owen
Y Cynghorydd Neville Hughes
Y Cynghorydd Bleddyn Williams
Y Cynghorydd Einir Williams

**Ward Gerlan**
Y Cynghorydd Ann Williams
Y Cynghorydd Linda Brown
Y Cynghorydd Dyfrig Jones

**Ward Rachub**
Y Cynghorydd Susan Davies
Y Cynghorydd Pearl Evans
Y Cynghorydd Godfrey Northam

**Cynghorydd Sir-**Paul Rowlinson.

1. **Croesawyd** pawb i'r Cyfarfod gan y Is-gadeirydd y Cyng. Einir Williams.

**2. Datgan Diddordeb**
Eitem 6, Partneriaeth Ogwen: Y Cyngr. Griff Morris a Neville Hughes

**3. Materion Brys**
**3.1** Bagiau plastic-yn boen yn y bocsus ail-gylchu gan eu bod yn cael eu chwythu gan y gwynt. Angen meddwl am syniadau sut i leihau'r broblem.
**3.2** Mynwent yr Eglwys, Coetmor-angen sylw brys. Y Clerc i gysylltu gyda'r contractwr.

**4. Cofnodion**
Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Ebrill 2018.

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion**
**5.1 Cloc Gorffwysfan**-Y Clerc dal i chwilio am un addas am bris rhesymol.
**5.2 Caeau chwarae –** yr Is-bwyllgor wedi bod o amgylch y caeau chwarae, ac am adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf.
**5.3 Ysgol Dyffryn Ogwen**- dŵr yn llifo yn ofnadwy o dir yr ysgol. Adroddwydd bydd unrhyw waith angenrheidiol yn cael ei ymgymryd yn ystod gwyliau'r haf.
**5.4 Lloches bws Rhes Ogwen**- wedi cael penderfyniad gan Llywodareth Cymru nad ydi hi'n bosib gosod lloches bws ar y safle yma.

**6. Adroddiad Partneriaeth Ogwen**
Roedd pawb wedi derbyn adroddiad ysgrifenedig y Rheolwr Prosiect a hefyd roedd Cynllun Busnes drafft wedi ei anfon. Pawb i'w ddarllen ac croeso i unrhyw un anfon sylwadau at Meleri.

**7. Adroddiadau gan Gynrychiolwyr**

Balchder Bro- adroddwyd bod y cyfarfod blynyddol diweddar wedi bod yn fuddiol iawn ac bod y basgedi crog yn cyrraedd y Stryd Fawr dydd Mercher 6 Mehefin. Adroddwyd hefyd bod ymgyrch casglu sbwriel wedi ei drefnu gyda'r Brownies ar gyfer dydd Llun 4 Mehefin am 6.30yh. Bydd yna adroddiad yn Llais Ogwan gan Balchder Bro yn gofyn am awgrymiadau safleoedd i blannu cennin pedr.

Canolfan Cefnfaes a'r llyfrgell- roedd cyfarfod wedi ei gynnal rhwng y cynghorwyr sir, Partneriaeth Ogwen ac swyddogion Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am y safleoedd. Adroddwyd bod Partnerieth Ogwen ar fin arwyddo'r brydles ar gyfer y llyfrgell, ac bod Cyngor Gwynedd yn awyddus i'r Cyngor Cymuned/Partneriaeth Ogwen gymryd prydles ar Cefnfaes cyn gynted a bo modd.

Penderfynwyd bod y Cyngor Cymuned yn hapus i dalu'r costau os bydd Partneriaeth Ogwen yn arwyddo'r brydles. Bydd cynrychiolwyr y Cyngor yn egluro'r sefyllfa i bwyllgor Cefnfaes yn eu cyfarfod nesaf ddiwedd mis Mehefin.

**9. Dylwtswyddau Cadeirydd y Cyngor**

Penderfynwyd ethol Is-bwyllgor i edrych ar y dyletswyddau, sef y Cyng. Dyfrig Jones, Godfrey Northam a Linda Brown.

**10. Meinciau cyhoeddus**

Penderfynwyd bod angen rhoi sylw i'r holl feinciau yn y plwy. Y Clerc i gysylltu gyda'r contractwr.

**11.Gohebiaeth**

Roedd pawb wedi cael copi o'r rhestr 'crynodeb o ohebiaeth Mai 2018'

**11.1** E-bost gan Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru-adroddiad Llesiant yng Nghymru. Penderfynwyd bydd yr aeloday yn ymateb fel unigolion.

**11.2** E-bost gan Rheolwr Gwasanaethau Iaith Gymraeg-ymgynghoriad Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd 2018-2023. Penderfynwyd bydd pawb yn ymateb fel unigolion.

**11.3** E-bost gan Partneriaeth Ogwen-Cynllun Busnes Drafft 2018-2020. Pawb i'w ddarllen erbyn y cyfarfod nesaf.

**11.4** E-bost gan Nia Morris, Gwasanaeth Ieuenctid Cyngor Gwynedd-angen trefnu cyfarfod i drafod y manylion. Y Clerc i drefnu gyda'r cynrychiolwyr.

**11.5** E-bost gan Bwrlwm Haf-cais am rodd o £50 tuag at darian a medalau i'r digwyddiad. Penderfynwyd bod hyn yn dderbynniol.

**11.6** E-bost gan Partnerieth Ogwen-costau diwygiedig ynghlwm a rhedeg y llyfrgell gymunedol. Y Cyngor yn derbyn y costau.

**11.7** E-bost gan Beavers Bethesda- am blannu bocs blodau o flaen arwydd 'Bethesda' ac yn gwahodd y Cyngor draw i'r digwyddiad.

**11.8** E-bost gan Un Llais Cymru- Bwletin newyddion Mai 2018.

**11.9** E-bost gan Cyngor Gwynedd ynglyn a enwi stad newydd o dai. Y Cyngor yn hoffi'r enw 'Lôn Bach Odro'.

**12. Penderfyniadau a Ceisiadau Cynllunio**

**<u>Penderfyniadau</u>**

**C18/0225/13/LL**

The Cottage, Tyddyn Canol, Rachub Estyniad ochr deulawr

| | |
|---|---|
| | **Penderfyniad:** Caniatawyd, gydag amodau |
| **C18/0236/13/LL**<br>Bwthyn Wiwer, 93 Ffordd Carneddi | Estyniad i godi uchder y bwthyn i dŷ deulawr<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd, gydag amodau. |
| **C18/0314/13/LL**<br>12 Henbarc, Carneddi, Bethesda | Estyniad gromen dros estyniad llawr gwaelod a newidiadau cysylltiedig<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd, gydag amodau |

**<u>Ceisiadau</u>**
Dim ceisiadau.

**13. Taliadau**

<u>Awdurdodwyd y canlynol</u>

| | |
|---|---|
| Cyflogau (Mai) | £271.50 |
| CThEM (Mai) | £67.80 |
| Londis-papurau(Ebrill) | £28.00 |
| E Goodall-ffenestri Gorffwysfan | £7.00 |
| Cyngor Gwynedd-Toiledau cyhoeddus | £4000.00 |
| Balchder Bro-basgedi crog | £99.00 |
| British Gas-trydan Llys Dafydd | £21.85 |
| Cynnal a chadw llybrau cyhoeddus | £1954.50 |